

From: Tracy Gilmartin <tgilmartin@onevoicewales.wales>
Sent: 15 November 2024 12:12
To: Tracy Gilmartin
Subject: FW: Publication of consultation papers - Planning resilience and preserving trees // Cyhoeddi papurau ymgynghori - Cydnerthedd cynllunio a chadw coed

Dear Member, for your information and attention // Annwyl Aelod, er eich gwybodaeth a'ch sylw

From: Planning.Director@gov.wales <Planning.Director@gov.wales>
Sent: 15 November 2024 10:23
Subject: Cyhoeddi papurau ymgynghori - Cydnerthedd cynllunio a chadw coed / Publication of consultation papers - Planning resilience and preserving trees

Annwyl Randdeiliad Heddiw, rydym wedi lansio ymgynghoriad ar hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n berfformio'n dda ac ymgynghoriad ar gadw coed a choetiroedd – rheoliadau newydd. <u>Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda</u> Mae gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda yn hanfodol i sicrhau gwlad lwyddiannus a chynhwysol. Mae'n hollbwysig ar gyfer cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol gan roi sicrwydd i fusnesau a chymunedau ynglŷn â sut y bydd lleoedd yn datblygu ac yn newid. Mae sicrhau bod gan Gymru ddigon o Gynllunwyr, sy'n meddu ar y sgiliau cywir yn y meysydd cywir, yn hanfodol i gyflawni ein huchelgeisiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyffredin. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu ystod o opsiynau sydd â'r potensial i wella cydnerthedd a chapasiti gwasanaethau cynllunio. Rydym yn ceisio'ch barn ar amrywiaeth o gynigion, gan gynnwys: • Cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio (gan gynnwys cynnig llwybr ar gyfer adennill costau llawn); • Mesur a monitro perfformiad drwy ddiweddarau ac ailgyflwyno'r Fframwaith Perfformiad; • Cynnal cydnerthedd, capasiti a gallu drwy gadw sgiliau, bwrsariaethau a phrentisiaethau; • Gwellu cydnerthedd ac adnoddau gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig drwy ddarparu gwasanaethau a rennir, canolfannau sgiliau	Dear Stakeholder, We have today launched consultations on promoting a resilient and high performing planning service and preserving trees and woodlands – new regulations. <u>Promoting a resilient and high performing planning service</u> A resilient and high performing planning service is essential for a successful and inclusive country. It is fundamental to the delivery of national and local priorities providing certainty to business and communities about how places will grow and change. Ensuring that Wales has enough Planners, with the right skills in the right areas is fundamental to the delivery of our collective social, economic and environmental ambitions. This consultation sets out a range of options which have the potential to improve the resilience and capacity of planning services. We are seeking your views on a variety of proposals including: • Increasing planning application fees (including proposing a pathway to full cost recovery); • Measuring and monitoring performance by re-invigorating and reintroducing the Performance Framework; • Supporting resilience, capacity and capability through skills retention, bursaries and apprenticeships; • Improving resilience and resources by Corporate Joint Committees through shared service delivery, planning skills hubs and
---	--

cynllunio ac estyn cyfnod adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Gellir dod o hyd i'r ymgynghoriad ar dudalennau gwe ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yn:

<https://www.llyw.cymru/hyrwyddo-gwasanaeth-cynllunio-cydnorth-syn-perfformion-dda>

Gofynnir ichi gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 17 Ionawr 2025.

Cadw coed a choetiroedd: rheoliadau newydd

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i'r gyfraith sy'n diogelu coed a choetiroedd yng Nghymru. Rydym yn ceisio'ch barn ar yr egwyddorion sy'n sail i'r rheoliadau newydd arfaethedig ynghylch diogelu coed a choetiroedd.

Cyflwynodd Deddf Cynllunio 2008 system symlach o reolaeth ond gan gadw'r lefel bresennol o warchodaeth ar gyfer coed a choetir. Rhagwelir y bydd y system newydd a gyflwynir gan Ddeddf 2008 yn dod i rym yng Nghymru pan ddaw Bil Cynllunio (Cymru) i rym, os yw'n cael ei gymeradwyo gan y Senedd, a chyhoeddir set newydd o reoliadau cysylltiedig. Disgwylir i Fil Cynllunio (Cymru) gael ei osod gerbron y Senedd y flwyddyn nesaf.

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer newidiadau penodol i'r system bresennol sy'n cynnwys, er enghraifft, proses fwy effeithlon ar gyfer diogelu coed, cyflwyno gorchmynion cadw coetir a diffiniad o amwynder.

Gellir dod o hyd i'r ymgynghoriad ar dudalennau gwe ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yn:

<https://www.llyw.cymru/cadw-coed-choedwigoedd-rheoliadau-newydd>

Gofynnir ichi gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 14 Chwefror 2025.

Yn gywir,

Neil Hemington

Y Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Chief Planner, Planning Directorate

extending the Local Development Plan Review period.

The consultation can be found on the Welsh Government's consultation pages at:

<https://www.gov.wales/promoting-resilient-and-high-performing-planning-service>

Responses to this consultation are invited by 17 January 2025.

Preserving trees and woodlands: new regulations

This consultation relates to proposed changes to the law protecting trees and woodlands in Wales. We are seeking your views on the principles underlying the proposed new regulations for the protection of trees and woodlands.

The Planning Act 2008 introduced a simpler system of control whilst retaining the existing level of protection for trees and woodland. It is envisaged that the new system introduced by the 2008 Act will be brought into effect in Wales when, and if approved by the Senedd, the Planning (Wales) Bill comes into force, accompanied by a new set of regulations. The Planning (Wales) Bill is expected to be laid before the Senedd next year.

These regulations provide for focused changes to the current system which include for example, a more streamlined process for the protection of trees, the introduction of woodland preservation orders and a definition of amenity.

The consultation can be found on the Welsh Government's consultation pages at:

<https://www.gov.wales/preserving-trees-and-woodlands-new-regulations>

Responses to this consultation are invited by 14 February 2025.

Yours sincerely,

Neil Hemington

Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Chief Planner, Planning Directorate

Sganiwyd y neges hon am bob feirws hysbys wrth iddi adael Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd o ddifrif yr angen i ddiogelu eich data. Os cysylltwch â Llywodraeth Cymru, mae ein [hysbysiad](#)